Asedau Segur
**Camau Cynaliadwy Cymru**

Dormant Assets
**Sustainable Steps Wales**

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND




Camau Cynaliadwy Cymru – Grantiau Gweithredu

# Canllawiau cerbyd

# Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn i sefydliadau sy'n bwriadu prynu cerbyd fel rhan o'u cais Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Gweithredu. Ein hamcan yw helpu rhagor o gymunedau yng Nghymru i weithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a byw mewn ffordd fwy cynaliadwy.

**Bydd Camau Cynaliadwy Cymru – Grantiau Gweithredu ond yn ariannu cerbydau hollol drydanol.**

Os ydych chi'n gwneud cais am arian i brynu cerbyd, bydd angen i chi roi gwybodaeth ychwanegol ynghyd â'r ffurflen gais.

# Beth sydd angen i chi ei anfon atom

1. **Arfarniad opsiynau**
2. **Manyleb y cerbyd**
3. **Cyllideb ar gyfer y cerbyd dros gyfnod oes y grant**
4. **3 dyfynbris ar gyfer y pryniant**

# Arfarniad opsiynau

Pan fyddwch chi'n ystyried prynu cerbyd, meddyliwch am yr opsiwn gorau ar gyfer eich prosiect a'r blaned. Gall allyriadau cerbyd gyfrannu at newid hinsawdd a phroblemau iechyd cyhoeddus.

Dywedwch wrthym am y gwahanol opsiynau yr ydych wedi'u hystyried a pham yr ydych wedi dewis eich hoff opsiwn. Gelwir hyn yn arfarniad opsiynau.

Yn ogystal â phroblemau amgylcheddol, dylai eich arfarniad opsiynau ystyried manteision ac anfanteision gwahanol opsiynau teithio ar gyfer y prosiect a'ch sefydliad. Gallai hyn gynnwys opsiynau fel:

- cerdded, beiciau neu sgwteri i'w prynu neu logi
- tocynnau bws, trên neu dram
- rhannu cerbydau, clybiau ceir a thrafnidiaeth gymunedol
- prydlesu neu logi cerbyd
- prynu cerbyd trydan.

Os oes angen cerbyd arnoch ar adegau penodol yn unig, gall fod yn rhatach i gael cyllideb fisol neu flynyddol i logi neu brydlesu cerbyd yn ôl yr angen.

Gall fod opsiynau trafnidiaeth gymunedol eraill yn yr ardal neu grwpiau lleol eraill y gallech ddefnyddio eu cerbydau. Gallwch ddysgu rhagor am drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru gan y Community Transport Association.

# Ystyriaethau cerbyd

## Dewis cerbyd

- Bydd Camau Cynaliadwy Cymru – Grantiau Gweithredu yn ariannu cerbydau hollol drydanol yn unig. Nid yw hyn yn cynnwys cerbydau hybrid.
- Mae cerbydau'n dod mewn pob lliw a llun. Meddyliwch am eich anghenion ac anghenion unrhyw deithwyr, yn enwedig y rhai hynny ag anableddau.
- Gellir defnyddio ein grant i brynu cerbyd newydd neu ail-law.
  - Ar gyfer cerbyd ail-law, byddem yn disgwyl iddo fod mewn cyflwr da iawn, gyda hanes gwasanaethu priodol, warantî ac MOT.

## Yr hyn fydd angen i ni ei wybod

- Bydd angen i chi ddarparu manyleb i ni am fath penodol o gerbyd.
- Bydd angen i chi ddangos i ni fod y cerbyd yn werth da ar gyfer arian cyhoeddus.
- Bydd angen 3 dyfynbris arnom ar gyfer y cerbyd. Dylai'r rhain fod o ddelwyr neu fasnachwyr sefydledig ac ar ddogfen â phenawdau llythyr.

Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i weld tystiolaeth o gofrestriad eich cerbyd, yswiriant, MOT a warantî.

## Defnyddio eich cerbyd

- Ni ellir defnyddio'r cerbyd er budd preifat ac ni ddylai gael perchnogaeth breifat.
- Bydd disgwyl i chi gadw'r cerbyd yn ddiogel ac mewn cyflwr da.
- Dylai eich cyllideb ystyried costau rhedeg parhaus. Gallai'r rhain gynnwys gwasanaethu ac MOT, treth, hyfforddiant gyrwyr, yswiriant, storio neu gadw mewn garej a sut y byddwch chi'n gwefru eich cerbyd.
- Er ein bod ni'n ariannu costau rhedeg, ni allwn ariannu costau cynnal wrth gefn. Felly, ni ellir cynnwys costau torri i lawr neu drwsio posibl yn y gyllideb.
- Bydd disgwyl i chi wybod pa drwydded fydd ei hangen arnoch ar gyfer eich cerbyd a chadw'n gyfredol o ran gofynion cyfreithiol a thechnegol.
- Ni allwch chi werthu na rhoi'r cerbyd i rywun arall yn ystod cyfnod oes y prosiect heb ein caniatâd ysgrifenedig.

# Polisi teithio carbon isel

Rydym yn disgwyl i chi ddatblygu polisi carbon isel eich hun i helpu mynd i'r afael â newid hinsawdd. Gall hyn gynnwys datblygu cynllun teithio gwyrdd (neu weithredol). Mae sefydliadau defnyddiol ar gael sy'n gallu cynnig cyngor am hyn, fel The Energy Saving Trust neu Sustrans.

Asedau Segur
**Camau Cynaliadwy Cymru**

Dormant Assets
**Sustainable Steps Wales**

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL
LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY
COMMUNITY FUND

## Sut i gysylltu â ni

E-bost: camaucynaliadwycymru@cronfagymunedolylg.org.uk

Ffôn: 0300 123 0735

Gwefan: tnlcommunityfund.org.uk/sustainable-steps-wales-egin-grants

## Cysylltu â ni

@TNLCommunityFundWales

@TNLComFundWales

@TNLCommunityFund